@chwaraeonrhct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Datblygu pobl - rhaglen 'Dod yn Hyfforddwr yn y Gymuned'

Ers y pandemig rydyn ni wedi sylwi ar brinder gweithwyr ar draws y sector chwaraeon. Rydyn ni wedi darparu cwrs hyfforddi chwe wythnos mewn partneriaieth âr garfan Gwaith a Sgiliau Rhondda Cynon Taf, gyda'r nod o gynyddu'r nifer o hyfforddwyr yn y gymuned yn Rhondda Cynon Taf. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys modiwlau theori ac ymarferol. Ni oedd yn darparu'r hyfforddiant gan dynnu ar brofiadau nifer o bartneriaid mewnol ac allanol. Cafodd y cyfrangogwyr hyfforddiant a mentora, yn ogystal â'r cyfle i symud ymlaen i gyflogaeth.

Roedd y cwrs yn targedu unigolion â diddordeb yn chwaraeon oedd yn chwilio am gyflogaeth. Roedden ni wedi darparu'r hyfforddiant yn seiliedig ar anghenion y grŵp. Roedd yr hyfforddiant yn rhoi'r cyfle i'r cyfranogwyr i ennill ystod o gymwysterau chwaraeon penodol a chymwysterau sy'n hanfodol wrth hyffroddi i ddod yn hyfforddwr. Yn dilyn yr hyfforddiant byddai'r cyfranogwyr yn gallu hyfforddi mewn lleoliadau cymunedol.

Roedd saith o unigolion wedi ymuno â'r cwrs, gyda **5** unigolyn yn cwblhau'r cwrs. Roedd cyfle gan y cyfranogwyr i ennill **6** chymhwyster yn rhan o'r hyfforddiant. Roedd gofyn i'r cyfranogwyr gwblhau cwrs hyfforddi ar-lein er mwyn ennill dau o'r cymwysterau. Roedd cynllun Chromebook Cymunedau am Waith a Mwy wedi ein galluogi ni i roi cyfrifadur llechen i bob un o'r cyfranogwyr er mwyn cwblhau'r cymhwyster.

Roedd hyder pob un o'r cyfranogwyr wedi cynyddu yn ystod yr hyfforddiant, gan wella'u sgiliau cyfathrebu, cyd-weithio ac arwain. Gofynnwyd i bob un o'r cyfranogwyr a gwblhaodd ycwrs i ymuno â'n gweithlu achlysurol. Mae tri unigolyn wedi ymuno â'n tîm Hyfforddi, gyda dau unigolyn yn aelodau o'n tîm Chwarae eich Rhan. Bydd pob un o'r unigolion yma'n chwarae rhan allweddol er mwyn ein galluogi ni sicrhau ein nod o ragor o bobl yn fwy heini, yn fwy rheolaidd ledled Rhondda Cynon Taf. Rydyn ni'n gobeithio darparu'r rhaglen eto, er mwyn galluogi twf yn ein gweithlu.

> *"Roeddwn i'n nerfus iawn ar ddiwrnod cyntaf y cwrs. Doeddwn i ddim yn adnabod unrhyw un, ac roeddwn i'n becso am farn eraill tuag ato fi. 6 wythnos yn ddiweddarach a dyma yw fy sesiwn olaf. Mae'r profiad wedi bod yn anhygoel ac rydw i wedi cwrdd â ffrindiau newydd ar y cwrs."*
>
> *"Roeddwn i ar bigau'r drain ar y diwrnod cyntaf. Trefnais i ddod gyda fy chwaer, ond doedd hi ddim yn gallu mynychu felly roedd rhaid dod ar ben fy hunain, rydw i mor falch fy mod i wedi gwneud hynny."*

**7** o gyfranogwyr

**38** o gymwysterau wedi'u hennill

**100%** yn bwriadu parhau i hyfforddi

Mae **66%** yn teimlo'n iachach

Mae **100%** yn teimlo'n fwy hyderus

**100%** bellach yn fwy heini, yn fwy aml

Mae **100%** yn teimlo'n hapusach

Mae **100%** wedi gwneud ffrindiau newydd

RHONDDA CYNON TAF